

2

Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Ar derfyn tymor prysur iawn arall hoffwn yn gyntaf ddiolch i'r rhieni a'r plant am gefnogi'r ysgol mor dda. Hefyd hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff am eu gwaith caled.

Cafwyd sawl digwyddiad arbennig iawn yn ystod y tymor diwethaf. Rhai o'r uchafbwyntiau i mi oedd llwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd gyda'r plant yn ennill dros 20 gwobr gyntaf; y Pasiant gwefreiddiol 'Efengyl Tangnefedd' a'r cynhyrchiad campus o 'lasoer'.

Fel y gwelwch wrth ddarllen trwy'r cylchgrawn hwn, mae'n disgyblion ni yma ym Mro Hyddgen yn cael profiadau a chyfleon arbennig iawn, yn amrywio o gyweithiau COBWEB a chyfle i ymweld â Gwlad Groeg, perfformio, gweithdai Celf a chyflwyniad am y Fari Lwyd, i enwi ond rhai. Does dim wythnos yn mynd heibio ble nad oes rhywbeth allgyrsiol wedi ei drefnu ar gyfer y plant.

Rhaid cofio hefyd am yr arholiadau. Os yw eich plentyn ym mwlyddyn 10 i 13 fe ddylai fod wedi llunio amserlen adolygu a bellach wedi dechrau adolygu. Mae'r arholiad cyntaf ar Fai 16eg, sydd ond wyth wythnos i ffwrdd. Fel rhieni, mae gennych rôl bwysig i'w helpu drwy eu hannog i weithio a thrwy geisio sicrhau lleoliad tawel iddynt wneud y gwaith (heb deledu a phethau eraill all dynnu eu sylw). Dylid adolygu mewn cyfres, sy'n golygu adolygu'r un gwaith am dair neu bedair noson yn olynol. Mae ystadegau'n dangos bod pobl yn cofio tua 80% o'r gwaith ymhen pedair wythnos, ar ôl adolygu am gyfres o nosweithiau. Ond os yw eich plentyn yn adolygu testun unwaith yn unig mae peryg iddo/iddi fod wedi anghofio 90% o'r gwaith ymhen pedair wythnos. Tystiolaeth felly bod gwaith caled yn síwr o dalu ar ei ganfed.

Hoffwn ddymuno'n dda i bawb dros y gwyliau gan obeithio y cewch Basg hapus ac edrychwn ymlaen at eich croesawu n'ôl atom ym mis Ebrill.

Cofion Cynnes

Dafydd M B Jones

Pennaeth

At the end of another action packed term, I would firstly like to thank the parents for their continued support and I would like to genuinely thank the staff for all their hard work.

A number of very interesting activities have been held during this term. One of my personal highlights was the school's success in the Urdd Eisteddfod with the children winning first prizes in over 20 competitions; another highlight was the outstanding Efengyl Tangnefedd pageant; lastly, the impeccable production of Frozen will stay with me for a long time.

As you can see from reading this edition of Ein Bro, the children are receiving wonderful experiences and wide ranging opportunities such as a visit to Greece as part of the COBWEB project; art workshops and a presentation about the Fari Lwyd, to name just a few. Not a week passes without an interesting event being organised for the children.

However, we should not forget the importance of exams. If your child is in year 10-13 he/she should have put together a revision timetable and started revising. The first examination starts on the 16th of May, which is in eight weeks. As parents you have a very important role; you can help your children to revise by encouraging them and making sure they have a quiet area to work (without a television and other distractions). Revision works well when it's done as part of a series, where the child revises the same topic for a series of three or four consecutive nights. Statistics show that people will remember around 80% of the work in four weeks time after revising for a series of nights. But if a child revises for just one night, 90% will be forgotten in four weeks time. Proof enough that hard work will pay off.

I would like to wish you all well over the holidays and hope that you have a very happy Easter. I look forward to welcoming you all back in April.

Best Wishes

Dafydd M B Jones

Headteacher

